


From: marged@mentrauiath.cymru 
Subject: Diweddariad MIC 23-10-2017 (Angen ymatebion)
Date: 23 Hydref 2017 am 16:25
To: Heledd ap Gwynfor heledd@mentrauiath.cymru

M

Helo Brif Swyddogion

Mae angen ychydig o wybodaeth gennych os gwelwch yn dda. Gweler isod. Ac mae ychydig o wybodaeth defnyddiol ar eich cyfer hefyd:

- 1 - **Cyfathrebu MIC** (angen ymateb)
- 2 - **Swmp gwaith y Mentrau** (angen ymateb)
- 3 - **Sticer Magi Ann** (angen ymateb)
- 4 - **Gwybodaeth grant**
- 5 - **Aelod Pwyllgor Archwilio a Risg Comisiynydd y Gymraeg**

1 - Cyfathrebu MIC

A fyddai modd i chi ateb y 3 cwestiwn ar y ddolen Survey Monkey yma os gwelwch yn dda er mwyn sicrhau ein bod yn cyfathrebu gyda chi Brif Swyddogion yn effeithiol ac effeithlon.

<https://www.surveymonkey.co.uk/r/X2XTDFK>

2 - Swmp gwaith y Mentrau

Rydym wedi creu dogfen (wedi atodi, dim i'w rannu) er mwyn arddangos gwaith y Mentrau dros y 6 mis diwethaf, yn fewnol ac i bwysigion. Mae infographic ar y dudalen olaf gyda rhai ffigurau. A fyddai modd i chi ymateb y 3 cwestiwn yn y Survey Monkey yma erbyn diwedd yr wythnos o.g.y.dd (amcangyfrif yn ddigon)

<https://www.surveymonkey.co.uk/r/XWV2JQW> Rydym wedi dewis enghreifftiau o waith y mentrau cafodd eu trafod yng nghyfarfodydd Swyddogion Maes yn ddiweddar. Os nad ydych yn hapus gyda'r esiampl a ddewiswyd ar gyfer eich Menter yna gadewch i ni wybod cyn diwedd yr wythnos gan ddarparu esiampl yn ei le (brawddeg byr a llun!).

3 - Sticeri Magi Ann

Mae Menter Iaith Fflint a Wrecsam yn archebu sticeri Magi Ann a'i Ffrindiau yr wythnos hon. Maent yn gwahodd y Mentrau eraill i fod yn rhan o'r archeb. Bydd 1,000 o sticeri yn costio rhwng £30 a £43 yn dibynnu ar faint yr archeb. Ebstiwch Anna Prysor Jones Anna@menterfflintwrecsam.cymru cyn dydd Mercher os hoffech chi archebu sticeri.

4 - Gwybodaeth Grant

Mae'r WCVA wedi rhannu'r wybodaeth am y grant Henry Smith Charity gyda ni. Rhaglen i gefnogi grwpiau/pobl sydd dan anfantais cymdeithasol neu economaidd ydyw sy'n cynnig grantiau rhwng £10,000 a £60,000. Gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer prosiectau penodol. Does dim dyddiadau cau. Mwy o wybodaeth yma:

<https://www.henrysmithcharity.org.uk/explore-our-grants-and-apply/improving-lives-grants-programme/improving-lives-grants-programme-overview/>

5 - Aelod Pwyllgor Archwilio a Risg Comisiynydd y Gymraeg

Er gwyb - dyma neges gan Rachel Campell-Lawrence o Lywodraeth Cymru. Rachael.CampbellL@gov.wales
"Atodaf at eich sylw wybodaeth ynghylch rôl mae Comisiynydd y Gymraeg yn ei hysbysebu ar hyn o bryd, sef Aelod o'i Phwyllgor Archwilio a Risg. Cysylltwch ar bob cyfrif os am ragor o wybodaeth. Edrychaf ymlaen i glywed gennych."



2017 Pecyn Ymgeiswyr
Pwyllgor Ar... a Risg.pdf



Swmp gwaith 2017.pdf

Cofion gorau,

Marged Rhys
Swyddog Datblygu
Mentrau Iaith Cymru
01492 643401



Mudiad cenedlaethol yn cefnogi gwaith y Mentrau Iaith lleol.
National organisation supporting the work of the local Mentrau Iaith.